

**CYFARFOD y PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 19eg Ebrill 2017 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol Wellington, y Rhyl ar ôl cyfarfod y Cyngor.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Mrs W. Mullen-James (Cadeirydd)

Y Cyngorwyr Mrs. E.M. Chard, Mrs. J. Hughes, A. R. James, Ms. J. McAlpine, S. Ratcliffe, Miss S. Roberts, A.J. Rutherford, Miss R. Siddall, a'r Parchedig S. Walker.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

#### 65. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorydd T. Thomas (gwyliau teuluol).

#### 66. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd yr Aelodau y Ceisiadau Cynllunio a dderbyniwyd, fel y dangosir isod a **PHENDERFYNWYD** fel y nodir arnynt nawr.

**Nodyn 1:** Hysbysir yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod Cyngor Tref y Rhyl eisiau datgan, lle'n briodol, bod gofyn i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau megis swyddfeydd, siopau ac archfarchnadoedd, osod arwyddion dwyieithog sy'n adlewyrchu natur ddwyieithog ardal y Rhyl.

**Nodyn 2:** Dywedodd/Ail-ddywedodd yr Aelodau canlynol sydd hefyd yn gwasanaethu ar Gyngor Sir Ddinbych eu bod, wrth gymryd penderfyniadau ar y ceisiadau, yn gwneud hynny ar sail yr wybodaeth a oedd ger eu bron nawr ac os oedd angen ystyried y ceisiadau yng Nghyngor Sir Ddinbych, y byddant yn edrych ar y ceisiadau o'r newydd yn seiliedig ar yr wybodaeth a fydd ar gael bryd hynny, ac oherwydd hynny efallai y byddant yn dod i benderfyniad gwahanol arnynt.

Y Cynghorydd: A.R. James Y Cynghorydd Mrs. W. Mullen James

#### **CEISIADAU CYNLLUNIO**

66.1 **LLEOLIAD Y SAFLE** Safle Ocean Beach, Ffordd Wellington, y Rhyl

**WARD:** Foryd

**Rhif y CAIS:** 45/2017/0229

Adeiladu 4 uned fasnachol (dosbarthiadau defnydd A1, A2, A3) ar safle 2 uned a gymeradwywyd eisoes dan gyfeirnod cynllunio 45/2016/0925

Yr ymgeiswyr yw Scarborough Development Group (Rhyl) Ltd..

**PENDERFYNIAD:** Dim gwrthwynebiad

66.2	<p><b><u>LLEOLIAD Y SAFLE</u></b> Clwyd Buildings, Clwyd Street, y Rhyl.</p> <p><b><u>WARD:</u></b> Bodfor</p> <p><b><u>Rhif y CAIS:</u></b> 45/2017/0260</p> <p>Amrywio amod rhif 2 caniatâd cynllunio côd rhif 45/2014/0646 i ganiatáu i 12 o unigolion ddefnyddio'r llety ac un cadair argyfwng ar gyfer tywydd oer.</p> <p>Yr ymgeisydd yw Mr. John R. Jones o Gymdeithas Dai Clwyd Alun.</p> <p><b><u>PENDERFYNIAD:</u></b> Dim gwrthwynebiad</p>
66.3	<p><b><u>LLEOLIAD Y SAFLE</u></b> 11 Avondale Drive, y Rhyl</p> <p><b><u>WARD:</u></b> Tynewydd</p> <p><b><u>Rhif y CAIS:</u></b> 45/2017/0268</p> <p>Adeiladu estyniadau i dŷ anedd.</p> <p>Yr ymgeisydd yw Mr. Cliff Howes o'r un cyfeiriad.</p> <p><b><u>PENDERFYNIAD:</u></b> Dim gwrthwynebiad</p>
66.4	<p><b><u>LLEOLIAD Y SAFLE</u></b> Llyfrgell y Rhyl, Stryd yr Eglwys, y Rhyl.</p> <p><b><u>WARD:</u></b> Bodfor</p> <p><b><u>Rhif y CAIS:</u></b> 45/2017/0277</p> <p>Tynnu ymaith gorchudd presennol y to a darnau o wydr patent, gosod gorchudd newydd a gosod goleuadau to newydd.</p> <p>Yr ymgeisydd yw Cyngor Sir Ddinbych</p> <p><b><u>PENDERFYNIAD:</u></b> Dim gwrthwynebiad</p>
66.5	<p><b><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u></b> Cyn Safle Gorsaf Bwmpio Carthffosiaeth, Westbourne Avenue, y Rhyl.</p> <p><b><u>WARD:</u></b> Foryd</p> <p><b><u>Rhif y CAIS:</u></b> 45/2017/0294</p> <p>Adeiladu un uned diwydiant ysgafn i'w defnyddio fel Canolfan Profion MOT a modurdy trwsio ceir a gwerthu ceir ail law.</p> <p>Yr ymgeisydd yw Emlyn Garage, Emlyn Grove, y Rhyl.</p>

<b>PENDERFYNIAD:</b> Dim gwrthwynebiad yn ddarostyngedig i amod yn cyfyngu oriau agor i 8:00 a.m. hyd at 8:00 p.m. oherwydd mwynderau preswyl eiddo cyffiniol yn unol â Pholisi RD1 (vi) y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig.

**67. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach, datganodd y Cadeirydd bod y Cyfarfod wedi dod i ben.

Llofnod: .....

Dyddiad: .....